Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales




# Ein Datganiad Llesiant 2023

# Trosolwg

Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd wedi sefydlu deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf LlCD) (2015) yn golygu bod yn rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ymdrechu i gael Cymru gynaliadwy. Mae hyn yn golygu meddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, gyda'n gilydd a gyda'n cymunedau i atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i fod yn ganolog o ran helpu Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithio tuag at Gymru lle mae pawb yn mwynhau bywydau hirach, iachach ac yn cael mynediad teg a chyfartal at yr amodau hanfodol sy'n arwain at iechyd a llesiant da, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Deddf LlCD yw ein fframwaith ar gyfer sut rydym yn gweithio a beth rydym yn ei wneud, ac felly ein blaenoriaethau strategol yw ein hamcanion llesiant hefyd, gan lywio gwaith ein sefydliad wrth symud ymlaen.

Yng ngoleuni'r heriau y mae Cymru'n eu hwynebu yn awr ac yn y tymor hir, gwnaeth yr adolygiad o'n strategaeth hirdymor yn 2023 ein galluogi i asesu ein blaenoriaethau presennol yn ffurfiol, gan gynnwys ymgysylltu â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae hyn yn sicrhau bod ein ffocws a'n camau gweithredu yn y dyfodol yn cael yr effaith fwyaf ac yn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i bobl Cymru.  Mae'r Pum Ffordd o Weithio, a adwaenir ar y cyd fel yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, wedi bod yn rhan allweddol o adolygu ein Strategaeth Hirdymor.




Fel sefydliad, rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i gryfhau ein dull o ddatblygu ein strategaethau a'n cynlluniau, sut rydym yn creu'r strwythurau, polisïau a phrosesau cywir a sut rydym yn arwain, yn cyfathrebu ac yn cynnwys ein staff a phartneriaid, fel ein bod yn cydweithio tuag at ddiben cyffredin.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i chymhwyso i rymuso ein staff i helpu i lywio datblygiad ein strategaeth. Mae'r strategaeth yn integreiddio â blaenoriaethau'r system ehangach, i sicrhau ei bod yn addas i'r diben ac yn mynd i'r afael yn effeithiol â heriau iechyd cyhoeddus dybryd. Rydym hefyd yn cyfrannu at yr agenda iechyd a chynaliadwyedd byd-eang, mewn synergedd â'n partneriaid yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'n cysylltu â dyletswyddau cyhoeddus eraill yng Nghymru megis Deddf yr Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ac mae aliniad cryf ein blaenoriaethau a'n hamcanion llesiant yn galluogi monitro ac adrodd effeithiol ar yr amcanion Llesiant yn erbyn y nodau Llesiant, a adlewyrchir yn ein mapio (Atodiad 1).

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu mecanwaith allweddol ar gyfer cefnogi dull 'Iechyd ym Mhob Polisi' ac mae'r Asesiad  Effaith ar Iechyd (HIA) yn arf defnyddiol i sicrhau bod nodau'r nodau cynaliadwy yn cael eu hystyried drwyddi draw.

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn gyfle i sefydliadau newid y ffordd y maent yn meddwl, yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r grwpiau mwyaf difreintiedig.

# Diagram 1. Ein Hamcanion Llesiant 2023-2035




Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy gyflawni ein chwe blaenoriaeth.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y Nodau Llesiant

### Cymru Lewyrchus

Rydym yn ymdrechu i gael 'Iechyd i Bawb' ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Sefydliad Iechyd y Byd, Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol cenedlaethol a rhyngwladol eraill. Rydym yn galluogi ac yn cefnogi polisïau a buddsoddiadau tuag at boblogaethau, cymunedau, economïau a phlaned iachach, mwy cyfartal, llewyrchus, carbon isel a chydnerth.

### Cymru sy’n fwy Cyfartal

Mae llawer o ffactorau yn cyfuno i effeithio ar iechyd unigolion a chymunedau. Mae gwahaniaethau yn y profiad o ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn dylanwadu ar iechyd meddwl a chorfforol pobl. Gall hyn arwain at wahaniaethau mewn canlyniadau iechyd, neu anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn dod ag arbenigedd a thystiolaeth iechyd y cyhoedd. Rydym yn cydweithio’n eang ag eraill i ddylanwadu ar y penderfynyddion iechyd ehangach hyn er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfle teg i iechyd. Mae hyn yn cynnwys mynd i’r afael â chyfleoedd tecach i blant, trafnidiaeth, tai, addysg, yr amgylchedd a mwy, fel newid system gyfan tuag at well iechyd a llesiant i bawb.

### Cymru Iachach

Mae llesiant meddyliol a chymdeithasol yn sail i iechyd gydol oes ac mae’n gysylltiedig â’n hymddygiad fel ag y mae â ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae ein dull o ran ymddygiad iach yn cydnabod bod y cyfleoedd i wneud dewisiadau iachach yn cael eu dylanwadu gan ein hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, gan ble rydym yn byw a chan weithredoedd y diwydiannau sy'n cynhyrchu ystod o nwyddau nad ydynt yn iach. Rydym yn dwyn ynghyd ac yn rhannu tystiolaeth ar gyfer gweithredu effeithiol i gefnogi polisi, deddfwriaeth a chamau gweithredu ar draws y system ar flaenoriaethau megis tybaco, diet, anweithgarwch corfforol, alcohol a sylweddau eraill.

### Cymru o Gymunedau Cydlynus

Ymdrechwn i gynnwys ein cymunedau er mwyn llywio ein gwaith a chydweithio â'n partneriaid o fewn y system gyfan. Rydym yn hysbysu partneriaid am y bygythiadau presennol a’r bygythiadau sy’n dod i’r amlwg i iechyd yng Nghymru ac yn eirioli dros gamau gweithredu i wella ac amddiffyn iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Mae cymunedau sy’n creu rhwydweithiau cymdeithasol ehangach yn llai tebygol o brofi unigrwydd ac arwahanrwydd ac maent yn fwy cydnerth wrth wynebu adfyd a thrawma. Mae sut rydym yn darparu ein gwasanaethau sy’n seiliedig ar dystiolaeth i ddiogelu iechyd pobl Cymru yn hollbwysig.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Cymru â Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae’r Gymraeg yn rhan gynhenid o’n hunaniaeth genedlaethol ac yn bwysig i’r gwasanaethau a ddarparwn ac i’r staff o fewn ein sefydliad. Rydym yn hyrwyddo’r Gymraeg yn frwd drwy sicrhau ein bod yn ei gwreiddio yn ein diwylliant sefydliadol, i adlewyrchu’r gymdeithas ddwyieithog yr ydym yn byw ynddi. Rydym yn ymdrechu i greu amgylchedd dysgu cefnogol ac rydym wedi ymrwymo i greu gweithle gydag amrywiaeth a chynhwysiant yn greiddiol iddo, lle gall pawb fod yn ddilys iddynt a rhoi o'u gorau.

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Roedd Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig yn sbardun allweddol yn natblygiad ein strategaeth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Lansiwyd e-ddysgu Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn i weithwyr iechyd proffesiynol ddeall mwy am Ddinasyddiaeth Fyd-eang a'r hyn y mae'n ei olygu i'n bywydau bob dydd.

## Cymru Gydnerth

Gwyddom fod yr argyfwng hinsawdd hefyd yn argyfwng iechyd. Bydd dinistrio cynefinoedd a rhywogaethau yn cyfrannu at newid hinsawdd ond bydd hefyd yn anghydbwyso'r systemau naturiol rydym yn dibynnu arnynt ar gyfer ein bwyd, aer glân, dŵr a mwy. Gwyddom hefyd fod newid hinsawdd yn effeithio ar fwy o’r rhai sydd fwyaf agored i niwed. Rydym bellach wedi gwneud Newid Hinsawdd yn flaenoriaeth strategol.

# Datblygu ein strategaeth hirdymor

Yng ngoleuni'r heriau iechyd y cyhoedd a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi adolygu ein Strategaeth Hirdymor a gyhoeddwyd yn 2018. Mae ein Strategaeth newydd Cydweithio ar gyfer Cymru Iachach wedi'i datblygu dros dri cham:

Cyfnod 1: Casglu tystiolaeth gychwynnol

Cyfnod 2: Datblygu ein strategaeth

Cyfnod 3: Profi a dilysu ein strategaeth

Yn ystod pob cam, rydym wedi defnyddio Deddf LlCD, yn enwedig y Pum Ffordd o Weithio, fel sbardun allweddol i fodelu ein dull.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â'n staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gael eu barn. Mae Diagram 2 yn rhoi trosolwg o'r gweithgarwch yr ydym wedi'i wneud ym mhob un o'r Pum Ffordd o Weithio.

Er mwyn llywio ein penderfyniadau, mae ein strategaeth wedi'i llunio gan ddata ar iechyd yng Nghymru a'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf am iechyd y cyhoedd.

Wrth inni roi ein strategaeth ar waith, rydym yn deall y bydd heriau newydd yn codi a byddwn yn addasu i'r rhain wrth iddynt ddigwydd drwy gadw i fyny â'r amgylchedd newidiol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant pobl Cymru.

Byddwn yn sicrhau bod ein cynllunio a'n darpariaeth yn ein galluogi i fabwysiadu dull ataliol hirdymor, sy'n canolbwyntio ar gynnwys y cyhoedd a chydweithio â'n partneriaid, i ddarparu atebion integredig wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw ac yfory. Bydd y Pum Ffordd o Weithio yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae ein cynllun strategol sylfaenol yn nodi sut y byddwn yn gweithio i gyflawni ein blaenoriaethau dros y tair blynedd nesaf. Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn y canlyniadau a nodwyd yn ein strategaeth ac yn adolygu ein ffyrdd o weithio.

Rydym yn croesawu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel fframwaith galluogi i'n helpu i wneud yn well. Rydym yn parhau i nodi a dathlu arfer da o ran rhoi'r Ddeddf ar waith. Isod mae rhai enghreifftiau o Astudiaethau Achos diweddar ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Diagram 2. Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

**Yr Her:**

**Rhoddodd ein hadolygiad Strategaeth, a arweiniwyd gan y Bwrdd, gyfle i ni asesu bygythiadau a chyfleoedd i iechyd y cyhoedd yn y dyfodol. Mae'r adolygiad wedi'i ategu gan y dystiolaeth a'r ymchwil iechyd cyhoeddus diweddaraf.**

**Cynnwys**

Buom yn ymgysylltu â staff a'n rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru i ddeall yr hyn y maent yn ei ystyried yw'r heriau iechyd y cyhoedd allweddol sy'n wynebu Cymru a pha rôl y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru ei chwarae wrth fynd i'r afael â

Roedd hyn yn cynnwys:

- 20 sesiwn 1:1 gyda rhanddeiliaid allanol dan arweiniad ein tîm gweithredol.
- Cymerodd 4,572 o aelodau'r cyhoedd ran mewn arolygon lluosog
- 20 yn cynrychioli sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda grwpiau nas clywir yn aml mewn digwyddiad cymunedol.

**Cydweithio**

Rydym wedi mabwysiadu dull hollol wahanol sydd wedi cynnwys 480 o staff, yn cydweithio o bob rhan o'r sefydliad, yn cynrychioli ystod o wahanol broffesiynau a'n partneriaid, yn dod at ei gilydd i lunio ein ffordd o feddwl a datblygu ein meysydd blaenoriaeth.



**Integreiddio**

Nodi sut y bydd y blaenoriaethau a'r amcanion strategol yn cyfrannu at nodau llesiant lluosog a lle mae ein hamcanion llesiant yn cyd-fynd â sefydliadau partner.
Mae'r canlyniadau a gynigir o dan bob maes blaenoriaeth yn cael eu tynnu o fframweithiau cenedlaethol presennol i sicrhau bod ein gwaith yn integreiddio ag uchelgeisiau system ehangach.

**Atal**

Mae ein strategaeth yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r cyfeiriad strategol a nodir yn Cymru Iachach, a gyhoeddwyd yn 2019.

Mae atal yn ffocws canolog i'n strategaeth ac yn thema sylfaenol ein holl flaenoriaethau a'n ffyrdd craidd o weithio. Er enghraifft, rydym wedi cytuno ar flaenoriaeth benodol sy'n canolbwyntio ar ata ac ymyrraeth gynnar ar draws y system iechyd a gofal.

**Hirdymor**

Mae ein strategaeth yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer 2035 ac mae wedi ystyried ysgogwyr a thueddiadau allweddol i gefnogi darpariaeth hirdymor.

**Beth nesaf?**

Mae'r Pum Ffordd o Weithio wedi bod yn fframwaith buddiol i ddatblygu'r strategaeth a byddwn yn parhau i adeiladu ar ein ffyrdd o weithio drwy gydol gweithrediad ein strategaeth i hwyluso gweithio traws-sefydliadol, galluogi cydweithio a chefnogi dulliau ac atebion amlddisgyblaethol.

# Astudiaeth Achos: Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru.

Mae'r Fframwaith a'r Cynllun Gwobrwyo yn cefnogi fferylliaeth gymunedol, deintyddiaeth, optometreg a meddygon teulu i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu hymarfer bob dydd a chyrraedd targedau datgarboneiddio. Mae newid hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach. Drwy leihau eu hôl troed carbon, bydd practisau gofal sylfaenol yn helpu'r rhai sy'n fwy tebygol o gael eu heffeithio gan y newid hinsawdd.

**Hirdymor**
Cynsail hanfodol y fframwaith yw annog practisau i feddwl yn y tymor hwy am iechyd eu claf a chynaliadwyedd eu gwaith a'r amgylchedd. Trwy helpu i leihau effeithiau newid hinsawdd bydd hyn yn helpu i leihau'r goblygiadau iechyd negyddol.

**Integreiddio**
Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac eraill sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol a newid yn yr hinsawdd i sicrhau bod y gwaith yr ydym yn ei wneud yn gyson. Er enghraifft, helpu i sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio'n gywir i gael yr effaith fwyaf.

**Cynnwys**
Nawr yn ail flwyddyn y fframwaith, rydym wedi ystyried adborth gan bractisau a gymerodd ran ac na chymerodd ran y llynedd i ddarganfod sut y gellir gwella'r fframwaith er mwyn annog mwy o bobl i gofrestru a chymryd camau gweithredu. Yn ystod y flwyddyn gyntaf rydym wedi gweld dros 100 o dimau yn cofrestru a 35 yn ennill gwobr.

**Cydweithio**
Dyfeisiwyd y fframwaith gyda grŵp arbenigol o gynghorwyr o randdeiliaid ar draws gofal sylfaenol. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu a oedd wedi'u cynnwys fel rhan o'r fframwaith yn realistig ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol ond hefyd y camau hynny a oedd yn mynd i wneud y gwahaniaeth mwyaf.

**Atal**
Trwy annog gofal sylfaenol i hyrwyddo a chymeradwyo camau gweithredu fel teithio llesol a rhagnodi cymdeithasol/gwyrdd bydd hyn nid yn unig yn helpu i leihau effeithiau negyddol newid hinsawdd ond hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd staff a chleifion.

# Astudiaeth Achos: Canllaw ac adnoddau "Cyflwyno gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch".



Mae gwaith teg yn cyfrannu at economi llesiant, sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn ac yn helpu pawb i wireddu eu potensial. Gyda gweithlu amrywiol, iach ac ymgysylltiol, gall busnesau a sefydliadau fod yn fwy cynhyrchiol, gan gyfrannu at economi fywiog a chynaliadwy. Mae angen cyfuno hyn ag ymdrechion i sicrhau bod gwaith yn amgylcheddol gynaliadwy. Buom yn gweithio gyda phanel arbenigol i ddatblygu canllaw, animeiddiad, ffeithluniau ac astudiaethau achos i gefnogi asiantaethau lleol a rhanbarthol yn eu hymdrechion i wella iechyd, llesiant a thegwch trwy gyfranogiad cynhwysol mewn gwaith teg. Mae'r rhain wedi cael effaith, gan gynnwys llywio cynlluniau llesiant lleol.

**Hirdymor**
Mae cynyddu mynediad at waith teg yn canolbwyntio ar effaith hirdymor gwaith ar iechyd a llesiant gan gydnabod buddion nid yn unig i weithwyr ond eu teuluoedd, busnesau a chymunedau ac ymgorffori cynaliadwyedd yn y dull gweithredu.

**Integreiddio**
Mae'r canllaw yn dangos sut y gall gwaith teg gefnogi pob un o'r saith nod llesiant; nid dim ond Cymru lewyrchus, iach a mwy cyfartal. Mae'n canolbwyntio ar integreiddio 'gwaith teg' i ddull llesiant sefydliadol a'i roi wrth wraidd polisïau a chynlluniau.

**Cynnwys**
Casglwyd barn pobl ifanc i lywio datblygiad yr wyth argymhelliad a chymerodd person ifanc ran yn y panel arbenigol. Bu aelodau'r panel hefyd yn myfyrio ar eu profiadau eu hunain. Roedd eu cyfranogiad yn sicrhau bod profiad byw yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r argymhellion a'r adnoddau.

**Cydweithio**
Roedd y panel arbenigol yn cynnwys nid yn unig arbenigwyr academaidd, ond hefyd gynrychiolaeth o blith y rhai ag arbenigedd mewn cyrff cyhoeddus lleol a rhanbarthol, menter gymdeithasol, undebau llafur, busnes yn y gymuned ac addysg a hyfforddiant. Cymerodd Llywodraeth Cymru ran hefyd yn y panel i sicrhau aliniad â gwaith cenedlaethol ar waith teg.

**Atal**
Roedd y panel arbenigol yn ystyried gwaith teg fel penderfynydd iechyd a llesiant a thrwy gynyddu mynediad at waith teg cynhwysol y gall hyn atal afiechyd a chynyddu llesiant corfforol a meddyliol. Mae gwaith teg yn cydnabod nad yw atal afiechyd yn ymwneud â bod mewn gwaith neu ddarparu mentrau llesiant gweithwyr yn unig ond mae'n ymwneud â natur y gwaith ei hun a sicrhau bod gan weithwyr lais torfol.

# Astudiaeth Achos:  Cynllun Datgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio (DAP) Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi'r camau gweithredu a'r strategaeth allweddol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) sy'n cefnogi ein taith i ddod yn Sero Net erbyn 2030 ac yn alinio ac yn cefnogi Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. Bydd lleihau ein heffaith drwy weithredu ar yr hyn yr ydym yn ei adeiladu, y pŵer a ddefnyddiwn, sut yr ydym yn teithio, yr hyn yr ydym yn ei fwyta, a sut yr ydym yn defnyddio ein tir yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn ogystal â sicrhau cyd-fuddiannau iechyd.




**Hirdymor**
Mae'r cynllun yn cefnogi camau gweithredu, gan gynnwys cynllunio ariannol, i fynd i'r afael â heriau hirdymor i adeiladu cynaliadwyedd a chydnerthedd yn ein darpariaeth gwasanaethau a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tuag at darged Sero Net 2030.

**Integreiddio**
Mae'r cynllun yn sicrhau bod gweithgareddau yn y cynllun gweithredu yn ategu ac o fudd i'w gilydd ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth berthnasol arall ee Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

**Cynnwys**
Mae'n ceisio rhoi'r cyfle i bob aelod o staff gymryd rhan a rhannu profiadau a syniadau i helpu i lunio'r penderfyniadau a'r gwasanaethau megis newidiadau i'n hystad a hyrwyddo teithio cynaliadwy.

**Cydweithio**
Mae pob Cyfarwyddiaeth, maes gwasanaeth a phartneriaid allanol yn cydweithio i gefnogi a chyflawni camau gweithredu i leihau allyriadau carbon, cefnogi newid ymddygiad a lleihau ein heffaith ar newid hinsawdd.

**Atal**
Mae'r Cynllun yn ceisio deall ein hallyriadau a ble i flaenoriaethu camau gweithredu, gan weithredu'n  gynnar i atal allyriadau rhag cynyddu ymhellach ac i oresgyn heriau

# Astudiaeth Achos: Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP)

Mae'r AWDPP yn cynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl sydd â risg uwch o gael diabetes math 2. Wedi'i ddatblygu'n genedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, caiff ei ddarparu'n lleol gan weithwyr gofal iechyd ymroddedig ac arweinwyr deieteg sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol. Mae'r AWDPP yn cefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o gael diabetes math 2 trwy ymyriad byr, i wneud newidiadau i'w diet ac i fod yn fwy egnïol yn gorfforol.



**Hirdymor**
Sefydlwyd yr AWDPP i gydnabod effaith sylweddol diabetes math 2 ar iechyd y boblogaeth a'r GIG yng Nghymru, gyda'r bwriad o wella'r duedd o ddiabetes math 2 er llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

**Integreiddio**
Mae'r rhaglen yn defnyddio dull integredig drwy gynnwys y rhyngwyneb â Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan yn y dyluniad, yn ogystal â gweithio gyda rhanddeiliaid i alinio'r AWDPP â mentrau lleol cysylltiedig.

**Cynnwys**
Mae'r rhaglen wedi cynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau drwy ymgysylltu â Grŵp Cyfeirio Cleifion Diabetes Cymru Gyfan, Diabetes UK a chefnogi grwpiau llywio AWDPP lleol i ymgysylltu â'r gymuned.

**Cydweithio**
O'r cychwyn cyntaf, mae'r AWDPP wedi gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid ledled Cymru ac ar draws disgyblaethau, i gynllunio'r ymyriad ar y cyd a phennu'r modelau darparu a gwerthuso.

**Atal**
Mae'r AWDPP yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y gellir eu haddasu o ddiabetes math 2, sef ymddygiad maeth a gweithgarwch corfforol, a phwysau, trwy ymyrryd yng nghyfle'r cam cyn-diabetes.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Mesur Cynnydd

Mae'n bwysig inni allu monitro effaith ein strategaeth ar iechyd a llesiant pobl Cymru. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi gweithio gyda staff o bob rhan o'r sefydliad ac wedi cytuno ar y canlyniadau trosfwaol yr ydym yn bwriadu dylanwadu arnynt a'u cefnogi. Y rhain yw cynyddu'r disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig.

Mae disgwyliad oes iach adeg geni, gan gynnwys y bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig yn un o'r 50 o ddangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021.

| **Dangosydd cenedlaethol** | **Carreg filltir genedlaethol** |
|---|---|
| Disgwyliad Oes Iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig | Cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050. |

Er nad ni'n unig sy'n gyfrifol am y canlyniad hwn, na phob ffactor sy'n pennu iechyd a llesiant, byddwn yn ei ddefnyddio i helpu i ddeall iechyd a llesiant cyffredinol pobl Cymru ac i weithredu fel canllaw i ni wrth inni gyflawni ein strategaeth.

Ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, rydym wedi nodi canlyniadau lefel system a fydd yn ein helpu i ddeall ein cynnydd wrth gyflawni'r strategaeth.  Byddwn yn canolbwyntio ar fynegi'n glir ein rôl benodol mewn perthynas â sut rydym yn:

- **Hysbysu** partneriaid ar y bygythiadau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg i iechyd yng Nghymru, y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau, a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu.
- **Eirioli** ar gyfer gweithredu i wella a diogelu iechyd a lleihau anghydraddoldebau.
- **Ysgogi** partneriaid ar draws systemau i drosi tystiolaeth yn bolisi ac ymarfer ar raddfa fawr i wella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- **Cyflawni** gwasanaethau ar sail tystiolaeth i'r cyhoedd.

Wrth inni roi ein strategaeth ar waith, byddwn yn monitro'r canlyniadau poblogaeth yr ydym wedi'u nodi, yn ogystal â datblygu mesurau perfformiad penodol i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y system fesur hon yn ein galluogi i fonitro ein cyfraniadau cyflenwi penodol a'n helpu i werthuso ein heffaith ac addasu'n hyblyg lle bo angen. Byddwn hefyd yn monitro ein canlyniadau ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

# Atodiad 1. Alinio Nodau Llesiant a'n Blaenoriaethau / Amcanion Llesiant

## Y saith nod Llesiant ar gyfer Cymru

| Cymru Lewyrchus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru Fwy Cyfartal 4) | Cymru o Gymunedau Cydlynus (5) | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu (6) | Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang 7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

| **Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar sut y gall gwaith, addysg a thai wella iechyd a thegwch. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ¨ | ¨ | ✓ |
| Byddwn wedi datblygu a chynnull tystiolaeth, gan gynnwys ar atebion tegwch iechyd, i ddylanwadu, hysbysu a gweithredu polisi i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a materion iechyd cyhoeddus eraill â blaenoriaeth. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Byddwn yn galluogi ac yn cefnogi prif ffrydio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac Asesiad o'r Effaith ar Lesiant Meddwl (MWIA), i gryfhau Iechyd ym Mhob Polisi a buddsoddiad tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Byddwn wedi cryfhau gallu'r system iechyd y cyhoedd i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| **Hyrwyddo Llesiant Meddyliol a Chymdeithasol** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cenedlaethol a rhyngwladol i gryfhau gwybodaeth am adfydau plentyndod, atal trais a chefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. | .. | .. | ✓ | ✓ | ✓ | .. | ✓ |
| Byddwn wedi gweithio gydag eraill i gynyddu amlygrwydd gwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu llesiant meddwl | .. | .. | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. |
| Byddwn wedi galluogi partneriaid y system i ddeall a gweithredu ar yr achos dros osod y blynyddoedd cynnar wrth wraidd dulliau o wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau. | .. | .. | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. |
| **Hyrwyddo Ymddygiad Iach** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** |
| Byddwn wedi galluogi eraill i fabwysiadu dull systemau o atal y cynnydd mewn lefelau gorbwysedd a gordewdra ymhlith plant ac oedolion yng Nghymru drwy weithredu'r Strategaeth Pwysau Iach : Cymru Iach. | .. | .. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | .. |
| Byddwn wedi gweithio gydag eraill i gynyddu cyfran y boblogaeth sy'n actif. | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | ✓ | .. |
| Byddwn wedi cefnogi'r system ehangach i gymryd camau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu ymddygiad iach ac i fesur effaith eu gweithredoedd. | .. | .. | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. |
| Byddwn wedi gweithio gydag eraill i leihau'r gyfran o'r boblogaeth sy'n ysmygu | .. | .. | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. |
| Byddwn wedi gweithio gydag eraill i atal niwed sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |

| Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn datblygu fframwaith ar gyfer rôl arwain systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru ym maes iechyd y cyhoedd gofal iechyd, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. | .. | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |
| Byddwn wedi sefydlu rôl arweiniol wrth ddefnyddio dulliau ac offer Gwerth Cymdeithasol, economeg iechyd a modelu i lywio penderfyniadau a blaenoriaethu buddsoddiad tuag at wella iechyd y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau ac adeiladu Economi Llesiant yng Nghymru. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. |
| Byddwn wedi trawsnewid canlyniadau diogelwch cenedlaethol drwy welliannau amlwg a mesuradwy ar lefel system o ran ansawdd a diogelwch | .. | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |
| Bydd sefydliadau wedi cyflawni dull aeddfed a chynaliadwy o adeiladu eu gallu i wella a'i gymhwyso i'w blaenoriaethau ansawdd a diogelwch lleol | .. | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |
| Byddwn wedi cefnogi GIG Cymru i wella a thrawsnewid ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau diogelu i bobl Cymru. | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |
| Byddwn wedi cyflawni cyfraniad iechyd y cyhoedd at y rhaglen genedlaethol ar gyfer trawsnewid a gofal sylfaenol | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |
| Byddwn wedi cyflawni dull cydgysylltiedig o atal ac ymyrryd yn gynnar mewn lleoliadau gofal sylfaenol | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |
| Byddwn wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid system eraill i gynyddu ataliaeth drwy ofal deintyddol sylfaenol ac wedi cefnogi'r gwaith o ddiwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru. | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |

| Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y boblogaeth | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid, bydd gennym fodel gwasanaeth cytûn sy'n cynnwys galluoedd diagnostig a thriniaeth newydd ar gyfer clefydau heintus ac sydd â'r gallu a'r sgiliau i gyflwyno ac ymgorffori arloesedd. | ✓ | .. | ✓ | .. | ✓ | .. | .. |
| Byddwn yn darparu arweinyddiaeth system effeithiol a dibynadwy ar ystod o risgiau dynodedig, gan gynnwys HCAI ac AMR a chlefydau y gellir eu hatal drwy frechlyn. | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | .. | ✓ |
| Byddwn wedi gwella ein gwasanaeth i'r cyhoedd a'r system iechyd y cyhoedd ehangach yn barhaus er mwyn lleihau'r niwed i iechyd sy'n gysylltiedig â pheryglon amgylcheddol a chynyddu'r manteision iechyd sy'n gysylltiedig â buddion amgylcheddol. Byddwn hefyd yn cefnogi'r cyhoedd a'r system iechyd y cyhoedd i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |
| Byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu rhaglenni sgrinio poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (NSC) a Llywodraeth Cymru | .. | .. | ✓ | ✓ | .. | .. | .. |
| **Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** |
| Byddwn yn cael ein cydnabod fel sefydliad sy'n amgylcheddol gynaliadwy, a bydd gan ein gweithredoedd ynghyd â'n sefydliadau partner, gyd-fuddiannau ar gyfer iechyd a thegwch i gymunedau yng Nghymru | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. | ✓ |
| Byddwn wedi darparu arweinyddiaeth system iechyd y cyhoedd ar y newid hinsawdd fel bod gan ein gweithredoedd, ynghyd â sefydliadau partner, gyd-fuddiannau ar gyfer iechyd a thegwch i gymunedau yng Nghymru. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. | ✓ |
| Byddwn wedi cefnogi'r cyhoedd a'r system iechyd y cyhoedd i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | .. | .. | ✓ |

Byddwn yn parhau i adolygu a monitro aliniad y nodau Llesiant i sicrhau cysondeb yn ein cyfraniadau.